

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a  
Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

**Public Accounts and Public  
Administration Committee**

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddCCGG@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddCCGG  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddPAPA@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddPAPA  
0300 200 6565

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Lesley Griffiths AS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Vaughan Gething AS

Gweinidog yr Economi

9 Awst 2023

**Gwasanaeth Rhagnodi Electronig Gofal Sylfaenol**

Annwyl Weinidogion,

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi codi pryderon gyda mi, yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, ynghylch cyflwyno'r gwasanaeth presgripsiynu electronig gofal sylfaenol yng Nghymru.

Mae'r Fferylliaeth yn poeni y bydd symud i bresgripsiynu electronig yn cael effaith negyddol ar fferyllfeydd cymunedol, gan na fyddant yn gallu cystadlu â fferyllfeydd mawr sy'n gwerthu o bell yn Lloegr.

Mae'r Fferylliaeth wedi dweud bod y gostyngiad yn nifer y presgripsiynau sy'n cael eu dosbarthu mewn fferyllfeydd cymunedol, ynghyd â cholli pryniannau ychwanegol a wneir gan unigolion sy'n casglu presgripsiynau, yn debygol o arwain at golli incwm a fydd yn arwain at gau fferyllfeydd. Rwyf wedi atodi copi o lythyr a anfonodd y Fferylliaeth ataf sy'n amlinellu'r pryderon hyn yn fanylach.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



**Senedd Cymru  
Welsh Parliament**

A fyddech cystal â rhoi ymateb imi i'r materion a godwyd yn y llythyr? Yn eich ymateb, hoffwn ichi gynnwys manylion am yr effaith bosibl ar yr ystod estynedig o wasanaethau clinigol a ddarperir gan fferyllfeydd cymunedol o dan y Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol, y gwnaeth Llywodraeth Cymru ei ail-negodi gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru ac a fydd wedyn yn effeithio ar rannau eraill o'r GIG hefyd.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Russell George AS, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, a Paul Davies AS, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Mark Isherwood', is written over a horizontal line. The signature is fluid and cursive.

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

